**Vaughan Gething AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd**
**Deputy Minister for Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – MA-P/MD/1213/16

Aelodau'r Cynulliad

23 Mawrth 2015

Annwyl Gyfeillion

Yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar faterion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddydd Mercher 2 Mawrth, gofynnwyd cwestiynau am yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu ar ôl 6.30pm yn ystod yr wythnos ac ar foreau Sadwrn i bobl sy'n gweithio. Gan fod yr amser yn brin i ymateb i'r cwestiynau hyn, rwy'n amlinellu yn y llythyr hwn beth mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu.

Ers 2011, rydyn ni wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod gan bobl mwy o gyfle i gael apwyntiad yn ystod oriau craidd – 8am hyd 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda mwy o bractisau yn cynnig apwyntiadau yn hwyrach yn y dydd rhwng 5pm a 6.30pm. Mae'r ystadegau diweddaraf ar fynediad at wasanaethau meddygon teulu yn dangos bod pethau'n dal i wella ac rwy'n disgwyl i hyn barhau.

Mae'r ystadegau ar gyfer mynediad at feddygon teulu yn 2015 yn dangos:

- bod mwy o bractisau meddygon teulu yn awr ar agor am oriau hwy – mae 82% o bractisau yn awr ar agor am yr oriau craidd dyddiol (neu o fewn un awr i'r oriau craidd dyddiol); mae hyn i fyny o 60% yn 2011;
- bod nifer y practisau meddygon teulu sydd ar gau am hanner diwrnod neu ragor wedi gostwng o 19% yn 2011 i 4% yn 2015;
- bod mwy o bractisau meddygon teulu yn cynnig apwyntiadau gyda'r hwyr – mae 97% o bractisau yn awr yn cynnig apwyntiadau ar unrhyw amser rhwng 5pm a 6.30pm ar ddau ddiwrnod o'r wythnos o leiaf, i fyny o 92% yn 2011;
- bod 79% o bractisau meddygon teulu yn awr yn cynnig apwyntiadau ar unrhyw amser rhwng 5pm a 6.30pm bob diwrnod o'r wythnos, i fyny o 63% yn 2011;
- bod 16% o bractisau yn awr yn cynnig apwyntiadau cyn 8.30am ar ddau ddiwrnod o'r wythnos o leiaf, i fyny o 14% yn 2011;
- bod mwy o bractisau meddygon teulu yn cynnig apwyntiadau ar gyfer yr hanner awr gyfan rhwng 5.00pm a 6.30pm - mae 91% o bractisau yn cynnig apwyntiadau yn ystod yr hanner awr gyfan rhwng 5.00pm a 5.30pm ar ddau ddiwrnod o'r wythnos o leiaf, i fyny o 84% yn 2011;
- bod 64% o bractisau yn cynnig apwyntiadau yn ystod yr hanner awr gyfan rhwng 5.30pm a 6.00pm ar ddau ddiwrnod o'r wythnos o leiaf, i fyny o 40% yn 2011;
- bod 17% o bractisau yn awr yn cynnig apwyntiadau yn ystod yr hanner awr gyfan rhwng 6.00pm a 6.30pm, i fyny o 8% yn 2011.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gallwch weld yr ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi ar fynediad at wasanaethau meddygon teulu yn 2015 drwy ddilyn y ddolen
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160224-gp-access-wales-2015-en.pdf
http://gov.wales/statistics-and-research/gp-access-wales/?skip=1&lang=cy

Erbyn hyn, mae pob practis meddyg teulu yn gallu cynnig apwyntiadau a phresgripsiynau amlroddadwy drwy *Fy Iechyd Ar-lein*. Mae 73% o bractisau yn defnyddio'r wefan ac mae 167,007 o bobl wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae datblygiadau TG eraill yn yr arfaeth hefyd, sy'n cynnwys hwyluso'r drefn i bobl gofrestru ar *Fy Iechyd Ar-lein* a sicrhau bod mwy o fynediad at apiau i'w defnyddio ar ffonau clyfar. Yn ogystal â hynny, mae tua 43% o bractisau meddygon teulu yn awr yn defnyddio *Fy Iechyd Tecstio* i atgoffa pobl am eu hapwyntiadau a helpu i leihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu colli.

O safbwynt cynnig mynediad at bractisau meddygon teulu ar ôl 6.30pm, mae'r byrddau iechyd wedi rhoi sicrwydd bod yr hyn a gynigir yn adlewyrchu'r angen. Pan asesir bod angen o'r fath, disgwyliwn i fyrddau iechyd gynllunio ar ei gyfer.

Mae mynediad at apwyntiadau gyda meddygon teulu sydd wedi'u gwneud ymlaen llaw ar fore dydd Sadwrn yn cael ei gynllunio ar sail yr angen yn lleol. Pan fo asesiad bod yna angen am y gwasanaeth yn lleol, disgwylir i fynediad gael ei ddarparu, yn gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Bydd mynediad at wasanaethau meddygon teulu heb ei drefnu ar y penwythnos yn cael ei ddarparu drwy wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Cafodd cynllun meddygon teulu y tu allan i'r dalgylch ei dreialu yng Nghaerdydd, Wrecsam, Abertawe a Chasnewydd yn 2015-16. Roedd hwn ar gael i bobl sydd wedi cofrestru â phractis ond a oedd angen gweld meddyg yn ystod oriau gweithio mewn ardal arall. Er nad yw'r adborth o Abertawe wedi dod i law eto, yn gyffredinol, ychydig iawn a ddefnyddiodd y gwasanaethau a gynigiwyd o dan y cynlluniau peilot. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd a Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru i ystyried y gwersi ar gyfer cynllunio at y dyfodol.

Mae cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r gwaith ar ofal iechyd darbodus wedi'u cynllunio i gynyddu capasiti a gallu'r tîm gofal sylfaenol amlbroffesiynol ehangach sy'n gweithio gyda meddygon teulu. Bydd hyn yn galluogi meddygon teulu i roi mwy o'u hamser i bobl ag anghenion mwy cymhleth.

Gan adeiladu ar y £3.5 miliwn a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru i ofal sylfaenol yn 2014-15, cafodd cronfa gofal sylfaenol genedlaethol gwerth £40 miliwn ei darparu yn 2015-16. Y nod yw sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy; gwella mynediad a helpu i symud gwasanaethau o'r ysbyty. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru: i recriwtio fferyllwyr a ffisiotherapyddion clinigol i weithio gyda phractisau meddygon teulu; i sefydlu modelau newydd ar gyfer brysbennu dros y ffôn er mwyn cyfeirio pobl at y gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaeth cywir; ac i gynnal pedwar cynllun peilot i symud triniaeth ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint o'r ysbyty i ofal sylfaenol, lle bydd nyrsys yn rhoi gofal.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Deputy Minister for Health